Oedfa Derbyn Aelodau Newydd

’Roedd Sul cyntaf Ebrill yn un arbennig iawn yn hanes Eglwys Annibynnol Minny Street; oherwydd yn oedfa’r bore, cawsom groesawu tair o’n pobl ifainc yn gyflawn aelodau o’n cynulleidfa.

Mae **Enlli, Manon a Sioned** yn aelodau ffyddlon o ddosbarthiadau’r Ysgol Sul ac o *PIMS*, ac o’u gwirfodd, wedi penderfynu cyflwyno eu hunain i waith a chymdeithas yr Eglwys. Braint i’r gynulleidfa luosog a ddaeth ynghyd oedd cael tystio i’w hymrwymiad cyhoeddus.

Roedd y Gweinidog wedi gwneud tair croes, un yr un i Enlli, Manon a Sioned. ’Roedd pob un o’r Tair Croes yn unigryw, fel mae pob person yn unigryw, ac yn ein hatgoffa hefyd bod dod i gyflawn aelodaeth yn llwybr i ddod i berthyn i gymdeithas cwbl unigryw, Cymdeithas Pobl Dduw.

’Roedd yna nifer o elfennau ar y croesau. **Llun teulu** i atgoffa'r dair mai teulu yw Eglwys Minny Street; **wyneb cloc** ac yn lle rhifau neges - **Mae Duw gyda ni** - yn atgoffa pawb bod angen gwneud amser i Dduw bob amser. **Gwaith hoff awdur a Salm**; er mor dda darllen am anturiaethau Harry Potter a’r *Famous Five* mae angen hefyd amser i ddarllen Gair Duw. Telyn, ffidil, clocsio, ffliwt, rhedeg, tenis a sgïo - **Sioned, Enlli a Manon wrth eu pethau**; gweddïwn ar i’r Tair fod yn bobl annibynnol eu barn a’u hysbryd, deallgar ac anturiaethus, yn deyrngar i’r delfrydau gorau. Yn olaf, llun *PIMS* yn atgof o gyfarfodydd *PIMS* a dosbarthiadau’r Ysgol Sul lle daw **Pobl Ifanc Minny Street** i weld a deall beth yw gwerth perthyn yn llawn i eglwys leol.

Cyn dod ar Fwrdd yr Arglwydd, rhoddwyd cyfle i Enlli, Manon a Sioned ddatgan yn gyhoeddus eu hymrwymiad i’w Harglwydd ac i’w Eglwys. Bu hefyd i Gyfeillion hyn y tair, ynghyd â’r gynulleidfa, addunedu’n ffurfiol eu parodrwydd i gynorthwyo’r tair i aeddfedu yn y Ffydd, i dyfu yng nghymdeithas Eglwys Dduw ac i fod yn dystion byw i Grist.